# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2000

**Dechreuodd y cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau i Peter Law – Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol a Thai**
Gofynnwyd y **3** chwestiwn cyntaf

**2.15pm**
**Cwestiynau i Sue Essex – Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**
Gofynnwyd y **3** chwestiwn cyntaf

**2.35pm**
**Pwyntiau o Drefn**
Cododd **Alun Pugh** bwynt o drefn o dan Reolau Sefydlog 4.5 a 4.6 ar Ddatgan Buddiannau gan Aelodau.

**Esboniodd y Llywydd** bod y canllawiau ar Fuddiannau'r Aelodau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac y byddai'n edrych i mewn ymhellach i'r mater penodol hwn ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

Cododd **Helen Mary Jones** bwynt o drefn ynghylch y cyfieithiad o'r gair *exclusively* yn ei hail Welliant ar y ddadl ar y Comisiynydd Plant.

Diolchodd **y Llywydd** iddi am dynnu ei sylw at hyn a chadarnhaodd ei fod wedi delio â'r mater.

**2.43pm**
**Cymeradwyo Gorchymyn y Cyngor Datblygu Garddwriaeth** (Gorchymyn Rhan 2)
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, drwy weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33, yn cymeradwyo drafft o Orchymyn Cyngor Datblygu Garddwriaeth (Diwygio) 2000 y cyflwynwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O Blaid 47 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd Gorchymyn y Cyngor Datblygu Garddwriaeth**

**2.50pm**
**Dadl ar y Comisiynydd Plant**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn cydnabod cyfraniad y broses ymgynghori i ddatblygiad cynigion y Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Cyn 16 a Dysgu Cynnar i rôl, cylch gwaith a swyddogaethau Comisiynydd annibynnol i Blant yng Nghymru;
2. yn ategu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2000; a
3. yn penderfynu y dylai'r Cabinet barhau i drafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cyfle deddfwriaethol cynnar i roi swyddogaethau statudol i'r Comisiynydd sy'n ehangach na'r rheini a roddir iddo yn y Mesur Safonau Gofal.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Helen Mary Jones (Llanelli);**

Ar ddiwedd pwynt bwled un ychwaneger:

'ac mae'n ddiolchgar i'r holl bobl hynny a gymerodd ran yn y broses ymgynghori, yn enwedig y plant a'r bobl ifanc.'

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru);**

Ychwanegu'r pwynt canlynol ar ôl pwynt 1 ac ailrifo'r pwyntiau dilynol:

2. yn pwysleisio pwysigrwydd y teulu o ran diogelu a magu plant, ac felly'n credu y dylai cylch gwaith y Comisiynydd Plant ymwneud yn unig â'r gwasanaethau ar gyfer plant a ddarperir gan asiantaethau cyhoeddus ac eraill;

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Dileer geiriad pwynt 3 hyd at a chan gynnwys "cyfle deddfwriaethol cynnar" gan roi'r canlynol yn ei le, "yn gofyn yn ffurfiol, a hynny cyn gynted ag y bo modd, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru hysbysu Pwyllgor Cabinet y DU ar Araith y Frenhines a Deddfwriaeth at y Dyfodol o gynigion y Cynulliad"

Ar ddiwedd pwynt 3 dileer "." ac ychwaneger "fel y'u nodir yn yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor."

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); TYNNWYD YN OL**

Ychwaneger ar ddiwedd pwynt 3: "Yn benodol mae'r Cynulliad yn cadarnhau ei fod o'r farn y dylai'r Comisiynydd Plant i Gymru gael pwerau statudol ar draws pob maes sy'n effeithio ar blant yng Nghymru, ac y dylai ei b/phwerau gynnwys y canlynol:

pwer i fynnu bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal

pwerau i orchymyn bod gwybodaeth yn cael ei datgelu

pwerau i fynnu bod awdurdodau a chyrff cyhoeddus yn gweithredu, yn unol â'u dyletswyddau eu hunain."

Gofynnodd **Karen Sinclair** i Gloch y Bleidlais gael ei chanu cyn y bleidlais. Cyfeiriodd y Llywydd at Reol Sefydlog 6.21 a gofynnodd a oedd yna 3 aelod yn cefnogi'r cais: Cefnogwyd ei chais.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 52 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 52

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 2**

O Blaid 8 Ymatal 14 Yn erbyn 29 Cyfanswm 51

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Gwelliant 3**

O Blaid 53 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 53

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Y cynnig, (fel y'i diwygiwyd)**

O Blaid 53 Ymatal 0 Yn erbyn 0 Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.28pm**
**Dadl Fer:**
**Geraint Davies (Rhondda); Darpariaeth Ysbytai yn y Rhondda**

**Pwynt o Drefn:** Gofynnodd **Brian Gibbons** a ddylai Pauline Jarman a Geraint Davies ddatgan buddiant o gofio bod ysbyty Llwynypia ym mherchnogaeth yr awdurdod lleol. Cytunodd y ddau ac aethant ati i ddatgan buddiant.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.56pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 13 Mehefin 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 6 MEHEFIN 2000**

Strategaeth Adnoddau Dynol ar gyfer NHS Cymru - Darparu ar gyfer Cleifion
Strategaeth Adnoddau Dynol ar gyfer NHS Cymru - Darparu ar gyfer Cleifion - CRYNODEB
3 Month Business Plan – Nid oes copi Cymraeg ar gael